Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fercher, 18 Rhagfyr 2024, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, K.R. Jones, W. Price, Ms. R. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Mrs. M. Blakeley-Walker (Arsylwi)
Mrs. E. Chard (Arsylwi)
A. R. James (Arsylwi)
Miss C.L. Williams (Arsylwi)
Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 37. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Miss S. Fleming, Ms. J. McAlpine, B. Mellor. Miss S. Roberts a D. Simmons.

## 38. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD HWN

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford yn Gadeirydd y cyfarfod hwn, yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

## 39. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw un o'r eitemau busnes i'w hystyried ar yr agenda?

***PENDERFYNWYD*** *dim datganiadau.*

## 40. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| 40.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE**: Windspeed Ltd. 115 Ffordd y Morfa, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms. S. Fleming<br>Mrs. D. King<br>Ms. R. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1465<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd o weithdy i gampfa<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Simon Johnston (Elite Personal Training)<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| 40.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Blue Moon, 19 – 23 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2BT<br><br>**WARD:** Pendyffryn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: A.J. Rutherford<br>D. Simmons<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1447<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd yr adeilad sy'n bodoli i ffurfio pedair uned fasnachol ar y llawr gwaelod a dau fflat hunangynhwysol ar y llawr cyntaf a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISYDD:** Mrs Ramandeep Kaur<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Gwrthwynebiad*<br><br>*Mae'r Cyngor Tref yn croesawu'r cais i adfer defnyddio'r safle pwysig hwn.*<br><br>*Fodd bynnag, mae'r Cyngor Tref yn pryderu, os cymeradwyir y cais, y bydd problemau parcio sy'n bodoli eisoes yng nghyffiniau safle'r cais ar Ffordd y Dyffryn (A525) a Ffordd Glan y Felin yn cael eu gwaethygu ac yn creu problemau llif traffig arwyddocaol ar yr A525.*<br><br>*Cred y Cyngor y bydd y cynnig fel y'i cyflwynwyd yn arwain at gynnydd yn y parcio y tu allan i safle'r cais gan unigolion sy'n dymuno defnyddio'r pedair uned fasnachol. Tra bo'r Cyngor Tref yn nodi fod y cais yn cynnwys darpariaeth mannau parcio ar y safle mae'r rhain wedi'u lleoli fel ei bod yn ofynnol i gerbydau fynd am yn ôl i barcio yn y man parcio neu fynd am yn ôl ar yr A525 sy'n groes i ofynion Rheolau'r Ffordd Fawr.*<br><br>*Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried fod y cais fel y'i cyflwynwyd yn groes i baragraff viii Polisi RD1 y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu.*<br><br>*Mae'r Cyngor hefyd yn bryderus bod un o'r unedau masnachol yn ymddangos fel cyfleuster bwyd tecawê. Os yw hyn yn wir yna mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn dymuno gwrthwynebu oherwydd gormodedd o'r math yma o* |

| | |
|---|---|
| | *ddefnydd yng nghyffiniau safle'r cais.* |
| 40.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 32 Rhodfa Kingsley, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms. S. Fleming<br>Mrs. D. King<br>Ms. R. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1522<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu estyniad unllawr ar gefn yr annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Andrew Broderick<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 40.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir y tu blaen i Highfield Park, Y Gorlan, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms. J.M. Evans<br>K.R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1023<br><br>**DISGRIFIAD**: Gwaith tocio ac adfer a gwaredu un goeden bedwen sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed Cyngor Dosbarth Trefol y Rhyl 1951<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Craig Stockton (Sherratt Group Ltd)<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**41. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...